



Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Llanbryn-mair

Adroddiad Blynnyddol 2026

Mae Cronfa Melinau Gwynt Llanbryn-mair yn ariannu amryw o weithgareddau ac asedau yn y fro.

Gweinyddir yr arian gan y datblygwyr ffermydd gwynt canlynol:

Carno 2 ac 1 Amegni

EDF

Ymddiriedolwyr -

Dai Jones (Llan), Pennant Jones (Talerddig), Gwyndaf Davies (Pandy), Richard Ashton (Pandy), Fiona Cauley (Bont), Ifan Edwards (Talerddig), Sue Evans (Talerddig), Emyr Lewis (Llanbryn-mair), Eifion Davies (Bont) a Bryn Jones (Llanbryn-mair)

Mae'r Cyng. Gary Mitchell yn mynychu'r cyfarfodydd trwy wahoddiad.

Mae Richard Ashton yn Gadeirydd ar gyfer 2025-27

Mae Bryn Jones yn Is-gadeirydd ar gyfer 2025-27

Mae manylion cyswllt yr Ymddiriedolwyr yn **Atodiad 1**. Mae'r Gofrestr o Gynrychiolaeth yn **Atodiad 2**. Mae'r cyfrifon i'w weld yn **Atodiad 3**

Ysgrifenyddes: Sarah Reast

Manylion cyswllt: **E-bost** clerc@llanbryn-mair.com **Ffôn.** 07743 689912 **Cyfeiriad**

Ysgubor Crugnant, Pennant, Llanbryn-mair SY19 7BN.

Mae gwefan Cyngor y Gymuned www.llanbryn-maircouncil.com yn cynnwys manylion cyswllt a ffurflenni cais ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r **cyfarfodydd** yn cael eu cynnal ar Ddydd Mercher cyntaf bob mis ar ôl cyfarfod y Cyngor Cymuned yn y Ganolfan Gymdeithasol. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ond mae yna wasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael bob tro.

Meini prawf yr Ymddiriedolaeth

O dan delerau'r Ymddiriedolaeth mae'n rhaid i unrhyw fuddsoddiad fod o fudd i unigolion a grwpiau o fewn cymuned Llanbryn-mair yn uniongyrchol ac yn gyfan gwbl. Dyma restr o feini prawf perthnasol:

• Atal neu leddfu tlodi
• Hyrwyddo addysg
• Hyrwyddo crefydd
• Hyrwyddo iechyd neu achub bywydau
• Hyrwyddo dinasyddiaeth neu ddatblygiad cymunedol
• Hyrwyddo'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth
• Hyrwyddo chwaraeon amatur
• Hyrwyddo hawliau dynol, datrys gwrthdaro neu gymodi neu hyrwyddo cytgord crefyddol neu hiliol neu gydraddoldeb ac amrywiaeth
• Hyrwyddo diogelu neu wella'r amgylchedd
• Cynorthwyo'r rhai mewn angen oherwydd ieuenctid, oedran, afiechyd, anabledd, problemau ariannol neu anafanteision eraill
• Hyrwyddo lles anifeiliaid
• Hybu effeithlonrwydd lluoedd arfog y goron neu effeithlonrwydd y bobl, y gwasanaethau tan ac achub neu'r gwasanaethau ambiwlans
• Dibenion eraill sy'n cael eu cydnabod ar hyn o bryd fel rhai elusennol neu sydd yn ysbryd unrhyw ddiben sy'n cael ei gydnabod yn elusennol ar hyn o bryd

Enghreifftiau o brosiectau mae'r Ymddiriedolaeth yn ei gefnogi:

Nawdd i ddisgyblion a myfyrwyr - Mae pob myfyriwr dros 16 oed a hyd at ac yn cynnwys 21 oed yn gymwys i wneud cais am grant i gefnogi costau eu hastudiaethau. Gall hyn gynnwys prynu cyfrifiadur, dillad neu esgidiau arbennig, deunyddiau neu offer a chostau teithio neu fyw oddi cartref. Mae'r grant yn talu £300 am bob blwyddyn astudio hyd at gyfanswm o £900. Rhaid bod y myfyriwr wedi byw yn Llanbryn-mair am 3 blynedd a bod ar y gofrestr etholiadol. Mae'r grant hefyd ar gael i bobl ifanc sy'n derbyn hyfforddiant proffesiynol neu alwedigaethol.

Cefnogir holl blant Ysgol Llanbryn-mair gyda chostau teithio i wersi nofio hefyd.

Grant i grwpiau a chlybiau - Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi pob math o ddigwyddiadau a mudiadau cymdeithasol. Mae'r rhestr ganlynol yn dangos buddiolwyr eleni (sydd heb ei chrybwyll yn unman arall yn yr adroddiad yma)

Derbyniodd Sioe Llanbryn-mair gyfraniad tuag at babell a darpariaeth i Gornel y Plant



Derbyniodd **Eisteddfod yr Hen Gapel** cyfraniad tuag at wobrau, cwpanau, medalau a llogi'r neuadd

Derbyniodd **Clwb y Ddol** cyfraniad tuag at daith y Gwanwyn i'r Trallwng

Derbyniodd y **Cylch Meithrin** cyfraniad tuag at sied bren i storio tegannau ar gyfer chwarae tu allan

Derbyniodd Rainbows, Brownies a Guides Llanbrynmair a Carno cyfraniad tuag at logi'r neuadd
Derbyniodd Merched y Wawr Bro Cyfeiliog cyfraniad tuag at daith i Aberaeron
Derbyniodd Ysgol Llanbrynmair cyfraniad tuag at drip ysgol yr Haf
Derbyniodd Grŵp Natur Connect cyfraniad tuag at yswiriant ar gyfer Gwarchodfa Natur Pen y Bont
Derbyniodd Clwb Pysgota Llanbrynmair cyfraniad tuag at stocio Llyn Gwiddior gyda brithyll brown
Derbyniodd Clwb Bowlio Llanbrynmair cyfraniad tuag at fowls a chyfleuster storio
Derbyniodd Cyfarfod Bach Llanbrynmair cyfraniad tuag at feirniaid, gwobrau a lluniaeth



Enillodd **Clwb Ffermwyr Ifanc Llanbrynmair a Carno** bedwerydd lle yn yr Ŵyl Adloniant ym mis Mawrth. Cawsant eu cefnogi gan Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Llanbrynmair ar gyfer cludo setiau ac aelodau i'r digwyddiadau ac rydym yn eu llongyfarch ar eu buddugoliaeth

Cynnal a chadw adeiladau ac asedau - Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfrannu tuag at gynnal a chadw adeiladau cymdeithasol megis lloches bws y pentre a'r Ganolfan Gymdeithasol. Mae hefyd yn talu am gost torri gwair yn y parc chwarae ac wedi cyfrannu tuag at offer chwarae. Mae'r rhaglen o osod meinciau o gwmpas y fro wedi ei chwblhau ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cychwyn y broses o osod biniau grit/halen, un bob blwyddyn lle fydd angen. Mae'r hysbysfyrddau a'r gofologofn yn cael eu hariannu a gwneir cyfraniad bob blwyddyn tuag at gostau torri gwair ym mynwentydd Eglwys Santes Fair yn Llan, Capel Bethel yn Bont a'r Hen Gapel yn Nolfach



Mae'r **diffibrilwyr** o gwmpas y fro yn cael eu cynnal gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r un diweddaraf wedi cael ei osod ar wal y toiledau, diolch i gyfraniad gan Hufenfa De Arfon
Mae yna restr lawn o leoliad pob teclyn i'w weld ar dudalen Hafan gwefan Cyngor Cymuned Llanbrynmair

Prosiectau ar y gweill ac wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol

Parc Chwarae – Mae'r Ymddiriedolaeth yn talu am dorri'r gwair ac mae yna gyllideb ychwanegol ar gyfer gosod mainc picnic newydd ar gyfer Haf 2026

Cae Cymunedol – Mae'r Ymddiriedolaeth wedi talu am dorri'r gwair yn ystod y flwyddyn ond penderfynwyd mynd yn ôl at bori arno oherwydd diffyg diddordeb yn ei ddefnydd – Gwelwch Adroddiad Blynnyddol Cyngor Cymuned Llanbrynmair am y manylion llawn.

Hysbysfyrddau – Bydd hysbysfwrdd newydd yn cael ei osod ym Mhennant yn ystod Haf 2026 gan fod yr hen un yn dirywio.

Atodiad 1 - Manylion cyswllt yr Ymddiriedolwyr

2026			
Gwyndaf Davies	Pandy	01650 521581	
Eifion Davies	Bont	07970 127728	
Bryn Jones	Llanbrynmair	07767 441715	
Richard Ashton	Pandy	07854 347894	
Emyr Lewis	Llanbrynmair	01650 521385	
Dai Jones	Llan	07896 289358	
Pennant Jones	Talerddig	01686 420281	
Fiona Cauley	Bont	07914 710794	
Ifan Edwards	Talerddig	01650 521729	
Sue Evans	Talerddig	07745 470171	

Atodiad 2 - Cofrestr o ddiddordebau a chynrychiolaeth (mae pob un o'r Ymddiriedolwyr hefyd yn Gyngorydd Cymunedol)

2026				
Gwyndaf Davies	Pwyllgor y Ganolfan Gymunedol	Pwyllgor Sioe Llanbrynmair		
Eifion Davies	Pwyllgor y Ganolfan Gymunedol			
Bryn Jones	Ymddiriedolwr Hen Gapel	Pwyllgor Sioe Llanbrynmair	Mynwent yr Hen Gapel	Cyfarfod Bach
Richard Ashton	Pwyllgor y Ganolfan Gymunedol	Cyfarfod Bach y Ganolfan	Un Llais Cymru	Pwyllgor yr Ystafell Snwcer
Emyr Lewis		Clwb Pysgota a Chymdeithas Pysgota Dyfi		
Dai Jones	Un Llais Cymru		Mynwent yr Hen Gapel	
Pennant Jones	Llywodraethwyr Ysgol Llanbrynmair		Mynwent yr Hen Gapel	Ymddiriedolaeth Morgan Lloyd
Fiona Cauley	Fforwm Cleifion (Cadeirydd)	Pwyllgor Sioe Llanbrynmair	Neuadd Fach Llan	Ymddiriedolaeth Morgan Lloyd
Ifan Edwards		Pwyllgor Sioe Llanbrynmair		Cydlynwr Diffibrilwyr
Sue Evans	Fforwm Cleifion			Ymddiriedolaeth Morgan Lloyd

Atodiad 3 – Cyfrifon

	Final spend	Final spend	Final spend	Budget	Budget
Expenditure					
Students	4600.00	4800.00	3900.00	4800.00	4800.00
Bank charges	63.40	57.40	25.80	60.00	40.00
Peter Lamb (bus shelter)	1042.00				
Wicksteed Leisure (Playpark)	1646.46	2615.49			
Club/group grants	5760.59	4810.00	5229.40	4500.00	6500.00
Wages/admin	914.00	764.12	469.80	800.00	800.00
Llanbrynmair School / Friends o	3420.00	3022.00	2131.00	2500.00	2500.00
Ysgol Feithrin			850.00		
Canolfan Cymdeithasol	8300.00	5000.00	5000.00	5000.00	5000.00
Graveyards	2052.00	2424.00	3737.00	3000.00	3500.00
St Mary's Church	6000.00				
Llanbrynmair show	2344.00	2460.00	2500.00	2500.00	2500.00
Defibs	3795.12	108.00	276.38	1000.00	500.00
Noticeboards	2031.14	108.09			1000.00
Toilets	2359.63				
Grit bin		228.00		300.00	300.00
Benches	1024.80	350.00			500.00
Grass cutting (field and park)	1980.00	4152.00	4815.00	4500.00	2500.00
Coed		300.00			
Misc		684.48	144.00	500.00	500.00
Total expenditure	47333.14	31883.58	29078.38	29460.00	30940.00
Income					
Carno1			16457.71	16457.71	16845.69
Carno2			9732.00	9732.00	10003.22
Rowan			4200.86	4200.86	4200.00
Total Income	28560.87	29496.38	30390.57	30390.57	31048.91
Balance	-18772.27	-2387.20	1312.19	930.57	108.91
Bank start of year	10077.03	7684.43	8996.62		